

Susan Cooper
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Susan Cooper,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol mewn llawer o achosion o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn, sef yr arolygiad o wasanaethau oedolion hŷn a gynhaliwyd ym mis Medi 2019. Gwnaethom ganslo'r gweithgarwch â phwyslais penodol a gynlluniwyd ar gyfer mis Mawrth 2020 o ganlyniad i COVID-19.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rannwyd â chi'n gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Mae gan wasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gefnogaeth gorfforaethol gadarn a gweledigaeth glir ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion, a fynegwyd yn gadarn ym mhob rhan o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ac asiantaethau partner yn ystod yr arolygiad. Yn gyffredinol, gwelsom fod yr arferion yn rhagweithiol, ac yn canolbwyntio ar unigolion a chanlyniadau. Roedd asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn dda, ac yn dangos safbwyntiau a dymuniadau pobl. Gwelsom nad oedd y gofaluwr bob amser yn gallu manteisio ar seibiannau byr o'u cyfrifoldebau gofalu, a nodwyd hyn fel maes i'w wella.

Nid oedd gwasanaethau ailalluogi na galluogi bob amser ar gael pan fo'u hangen ar bobl. Mae'n bosibl y nodir cyfleoedd i gynyddu capasiti drwy adolygu prosesau broceru a'r model cyflawni ar gyfer gofal cartref. Lluniodd yr awdurdod lleol gynllun gwella i fynd i'r afael â phob maes a nodwyd yn ein harolygiad, ac rydym yn cydnabod y bydd heriau COVID-19 yn effeithio ar gyflymder unrhyw welliannau.

Nodwyd diffyg capasiti mewn cartrefi gofal i bobl â dementia ac anghenion nyrsio, sy'n golygu bod oedi wrth ryddhau rhai pobl o'r ysbyty.

Roedd perfformiad o ran cwblhau asesiadau plant o fewn terfynau amser yn waeth o'i gymharu â 2019, ac aed i'r afael â hyn. Roedd mwy o blant na'r disgwyl yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant am yr eildro neu fwy. Gwelodd yr uwch-reolwyr fod rhai o'r plant wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn rhy gynnar, neu nad oedd y gofal na'r cymorth i deuluoedd ar ôl cofrestru yn ddigon cadarn nac yn para'n ddigon hir. Roedd y rheolwyr yn sicrhau bod arferion a'r broses o wneud penderfyniadau yn cael eu gwella.

Nid oeddem yn gallu bod yn hyderus bod gweithwyr cymdeithasol yn ymweld â'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant na'r plant yn y system gofal yn ddigon aml. Ceisiodd yr uwch-reolwyr dawelu ein meddyliau drwy nodi mai mater o gofnodi oedd hyn. Bydd yr awdurdod lleol yn awyddus i sicrhau ei fod yn pennu targedau perfformiad ar lefel briodol sy'n ddigon uchel, o ystyried pa mor bwysig yw ymweld â'r plant sydd mwyaf agored i niwed.

Yn gyffredinol, nid oedd niferoedd y plant sydd wedi bod mewn gofal yn yr awdurdod lleol wedi lleihau. Ar hyn o bryd, canolbwyntir ar gynyddu'r niferoedd nad ydynt yn derbyn gofal mwyach. Mae'r awdurdod lleol wedi creu swyddi gweithwyr ailuno er mwyn helpu yn hyn o beth, ac mae'r rheolwyr yn hyrwyddo ceisiadau am Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig lle y bo'n briodol.

Mae'r rheolwyr wedi gweithio i wella dewis ac ansawdd y lleoliadau ar gyfer plant, a'r gwasanaethau therapiwtig sydd ar gael. Mae gwasanaethau newydd wedi agor i bobl ifanc dros 16 oed, ond bu oedi wrth agor gwasanaethau ychwanegol a gynlluniwyd o ganlyniad i COVID-19. Mae'r uwch-reolwyr yn cydnabod yr heriau parhaus o ran dilyn y trywydd therapiwtig a ragwelwyd ar gyfer pob rhan o ddarpariaeth lleoliad. Mae gwaith arolygu yn un o gartrefi plant yr awdurdod lleol wedi dangos meysydd o ddiffyg cydymffurfio. Bu oedi wrth wneud gwaith angenrheidiol o ran recriwtio staff, hyfforddi ac adeiladu o ganlyniad i'r argyfwng presennol.

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i brofi heriau sylweddol o ran dod o hyd i leoliadau addas i nifer bach o blant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, er gwaethaf y ffaith ei fod wedi ailfodelu ei ddarpariaeth ei hun. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi tri pherson ifanc mewn trefniadau pwrpasol, heb eu rheoleiddio, yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae AGC, Llywodraeth Cymru a'r llysoedd yn parhau i adolygu'r trefniadau hyn, sy'n peri heriau anferth.

Pobl

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymgysylltu â phobl yn dda er mwyn llywio a chynllunio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau, ac mae'r Prif Weithredwr yn ymrwymedig i hyn. Caiff llais a dewisiadau pobl hŷn eu parchu, ac ymatebir iddynt. Mae'r hyn a wneir i bennu a oes gan bobl y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol yn gadarn. Mae model o waith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael ei gyflwyno yn y gwasanaethau plant.

Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y bobl yn cael y Cynnig Rhagweithiol bob amser i gael gwasanaethau yn Gymraeg, gan ein bod wedi nodi rhai diffygion mewn perthynas â hyn yn ystod yr arolygiad.

Mae natur gadarnhaol ac ymrwymiad y staff yn nodwedd nodedig o ofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r staff yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi. Mae tîm arwain sefydlog; ond mae newidiadau ar ddod o ganlyniad i'r ffaith bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymddeol.

Roedd angen gwneud rhai gwelliannau o ran goruchwyllo'r staff yn gyson a chofnodi'r oruchwyliaeth honno yn y gwasanaethau oedolion. Roedd rhai o'r rheolwyr yn gyfrifol am reoli maes gwaith eang, a oedd yn effeithio ar eu gallu i oruchwyllo'r staff a gwneud gwaith sicrhau ansawdd. Roedd yr awdurdod lleol yn cael trafferthion wrth recriwtio staff, ac mae'n rhoi mwy o gymorth i bobl i'w galluogi i ennill cymwysterau wrth weithio i'r awdurdod.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Rhoddodd yr uwch-reolwyr sicrwydd i ni nad oedd unrhyw ôl-groniad o geisiadau. Mae'r tîm yn ystyried goblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â Threfniadau Amddiffyn Rhyddid. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Gwelsom dystiolaeth o ymrwymiad ariannol cadarn i wasanaethau ataliol ar ran y Prif Weithredwr a'r cabinet, ac amrywiaeth dda o grwpiau cymunedol sydd o ddiddordeb penodol i bobl hŷn. Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi buddsoddi mewn swyddi er mwyn cysylltu pobl ag adnoddau. Gwelsom ymyrraeth gynnar effeithiol i atal anghenion rhag gwaethygu, gan gynnwys gweithdrefnau diogelu cadarn a gwaith ataliol wedi'i dargedu gyda grwpiau penodol o bobl sy'n agored i niwed.

Defnyddir taliadau uniongyrchol mewn ffordd greadigol. Mae'r gwasanaeth ymateb symudol i bobl sy'n defnyddio'r system larwm yn enghraifft o arfer da. Mae'r awdurdod lleol yn gweithredu mewn ffordd ragweithiol drwy sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar drefniadau a rag-gynlluniwyd neu drefniadau wrth gefn.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Yn genedlaethol, mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal, ac rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Roedd yr ymateb a gafwyd gan yr awdurdod lleol yn ceisio rhoi sicrwydd. Mae gweithiwr cymorth lleoliadau yn darparu cymorth i ofalwyr pan fydd y lleoliad mewn perygl o fynd yn ansefydlog. Cynhelir cyfarfodydd sefydlogrwydd lleoliadau o fewn 48 awr. Bydd y swyddog adolygu annibynnol yn cynnal cyfarfod 'Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal' o fewn 20 diwrnod gwaith i'r lleoliad ddod i ben yn annisgwyl, ac yn nodi gwersi i'w dysgu er mwyn llywio lleoliad nesaf y person ifanc.

Partneriaethau

Dechreuodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drefniadau gweithio rhanbarthol newydd ym mis Ebrill 2019, a gwnaed cryn dipyn o waith i sefydlu partneriaethau gweithredol a strategol newydd ym mhob rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Roedd yr uwch-reolwyr yn yr awdurdod lleol yn ymrwymedig i'r gwaith o ddatblygu trefniadau cydweithio cadarn ac effeithiol, a phrosesau integredig ar gyfer darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r uwch-reolwyr yn gweithio gydag uned cyflawni'r GIG i ddatblygu dull rhanbarthol gwell ar gyfer pobl sy'n gadael yr ysbyty. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod pobl hŷn yn yr awdurdod lleol yn cael budd clir o brosesau cyflym ar gyfer gwneud penderfyniadau a dull gweithredu cydgysylltiedig. Mae'r uwch-reolwyr yn aelodau gweithgar o'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol a fforymau rhanbarthol eraill.

Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad, ond roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn adlewyrchu datblygiadau i'r gwasanaethau a oedd eisoes wedi'u cynllunio. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod y prosesau strwythuro, ymarfer a throsglwyddo yn y timau byrdymor yn effeithlon ac yn lleihau oedi.

Gwnaethom hefyd nodi'r angen am ddulliau gweithredu sy'n fwy cyson â'r rhai a ddefnyddir gan staff iechyd meddwl a staff ar wardiau ysbytai er mwyn gwella gwasanaethau cydgysylltiedig a threfniadau ar gyfer rhyddhau cleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae presenoldeb gofal cymdeithasol yn yr ysbyty wedi gwella ers yr arolygiad, ac mae cyllid ychwanegol wedi sicrhau bod cymorth pellach ar gael i atal pobl rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty, gwella llif cleifion a hwyluso'r broses o ryddhau cleifion.

Bydd newidiadau sydd ar y gweill ar gyfer trefniadau a strwythur y llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn effeithio ar drefniadau cydweithio â'r awdurdod lleol. Gwnaeth yr uwch-reolwyr a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau adolygu'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol cyn i newidiadau i ffiniau'r bwrdd iechyd ddod i rym, a chaiff hyn ei ailystyried pan fydd y strwythurau iechyd newydd ar waith. Mae'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol wrthi'n edrych ar ddigonolrwydd lleoliadau i blant ag anghenion cymhleth, ac yn ystyried comisiynu ar y cyd.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig a gynlluniwyd ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgarwch sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lou Bushell-Bauers', with a small flourish at the end.

Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdod Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn